



# Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Chwefror 2014  
Rhifyn 204

## Oedfaon mis Chwefror

2 Chwefror: Bore: **Gweinidog** - gweinyddir y Cymun yn oedfa'r bore  
Hwyr (4pm) - Uno yn **Salem**

9 Chwefror: Bore: **Mr Wil Lloyd Davies**  
Hwyr (5pm) - **Y Parchg Iorwerth Jones Owen**

16 Chwefror: Bore: **Gweinidog**  
Hwyr (4pm) - Oedfa Undebol yn Feed My Lambs  
Sgwrs gan Hywel Williams (AS):

'Sut gall yr eglwysi ymateb yn ymarferol i'r newidiadau Diwygio Lles?  
Cynhelir Cyfarfod Swyddogion yn Seilo am 5.15pm

23 Chwefror: Bore a Hwyr - **Y Parchg Gareth Edwards**

2 Mawrth: Bore: **Gweinidog**—Oedfa deulu i ddathlu Gŵyl Ddewi  
Hwyr (4pm): Uno yn **Salem**

Am newyddion, gwybodaeth a lluniau gweler tudalen Eglwys  
Seilo ar

[www.henaduriaetharfon.org](http://www.henaduriaetharfon.org)



## Digwyddiadau Mis Chwefror

Nos Lun 3 Chwefror (7.30pm) - **Y Gymdeithas Lenyddol:**  
Sgwrs gan Karen Owen - 'Un ac un yn dri'

Nos Lun 10 Chwefror (7pm) - **Cymdeithas Chwiorydd Seilo**  
Sgwrs gan Eurwen Williams - 'Bwyd blasus'

Prynhawn Mawrth 18 Chwefror (1.30pm) - Henaduriaeth yn y Felinheli

Nos Lun 24 Chwefror (7pm) - **Pwyllgor Gwaith Chwiorydd Seilo**

Nos Lun 3 Mawrth (7.30pm) - **Swper Gŵyl Ddewi y Gymdeithas  
Lenyddol** yn y Clwb Golff. Ceir manylion gan Mrs Gweno Parry (669309)

**Seiat bob dydd Mercher** am 10am

**Y Gell Weddi** bob dydd Iau am 10.30am

**Taro Mewn yn Salem** bob dydd Mawrth rhwng 10 ac 11 am

## Am Eiliad

Yn dilyn y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd daw'r gweddill o brif wyliau'r flwyddyn yn eu tro, ac yn eu plith Gŵyl y Santes Dwynwen a Gŵyl Sant Ffolant, saint y cariadon. Dathlwyd y naill ar 25ain o Ionawr a dethlir y llall ar y 14eg o Chwefror. Yn anffodus nid yw Dwynwen eto wedi llwyddo i ddisodli Ffolant fel Sant y Cariadon yng Nghymru, ac ar y 14eg o Chwefror bydd y sachau post yn llawn o gardiau a'r disgwyl yn eiddgar ar aelwydydd led-led y wlad.

Ceir o leiaf dri sant cynnar o'r enw Ffolant neu Valentine, ill tri yn ferthyrion. Y Pab Gelasius 1 benderfynodd y dylid dathlu gwyliau'r tri ar 14 Chwefror. Y cyntaf ohonynt oedd Ffolant o Rufain, offeiriad a ferthyrwyd yn ail hanner y 3ydd ganrif, ac a gladdwyd yn y Via Flaminia. Yr ail yw Ffolant o Terni, esgob Interamma, ger Rhufain, yntau hefyd wedi ei ferthyru yn y drydedd ganrif, ac fel y Ffolant arall wedi ei gladdu yn Via Flaminia. Yr olaf oedd merthyr o Ogledd Affrica, na wyddom fawr amdano. Yng nghwrs y blynyddoedd tyfodd pob math o chwedloniaeth ynglŷn â Ffolant ac erbyn heddiw mae'n anodd gwahaniaethu'r gwir oddi wrth y chwedlonol.

Beth bynnag am hynny, fyddwch chi'n dathlu ar y diwrnod arbennig hwn? Fydd y cariad neu'r gŵr neu'r wraig wedi prynu siocled a blodau i chi ac wedi trefnu swper rhamantus mewn tŷ bwyta arbennig? Os bydd, yna gwnewch yn fawr o'r profiad, oher

wydd gallaf eich sicrhau eich bod ymhlith y lleiafrif breintiedig!

Ond os oes unrhyw un yn Seilo sydd yn dal i bendroni a heb benderfynu eto sut y mae ef neu hi am ddathlu'r diwrnod, be' am dderbyn cynnig y cogydd enwog Adam Simmonds? Gallwch ei wahodd i'ch cartref i goginio pryd bwyd wyth cwrs i ddau. Bydd yn cynnwys cafiâr, wystrys llawn perlau a 'truffles'. Cynigir amrywiaeth o winoedd drudfawr. Rhyddheir hanner cant o golomenod gwyn yn y fargen a goleuir hanner cant o ganhwyllau sawr rhosod. A'r gost? Cewch y cyfan am £61,000!

Mewn cyfnod economaidd dyrys pan mae cymaint o bobl yn ei chael hi'n anodd i gael deupen llinyn ynghyd, a 'banciau bwyd' yn codi ym mhob tref a phentref, onid oes rhywbeth yn anwedus mewn hysbysebu pryd o fwyd i ddau am £61,000? Mae cariad rhamantus o ran ei natur yn siwr o fynd dros ben llestri, wrth gwrs, ac ni ddylid gwarafun i gariadon fwynhau hynny, ond y mae cariad yn y Beibl yn mynd law yn llaw â chyfrifoldeb; 'Yn gymaint ag i chwi ei wneuthur i un o'r rhai bychain hyn, fy mrodyr, i mi y gwnaethoch...!'

Gwenda Richards

## Coffâd

### Awen Humphreys, 34 Stryd Elinor

Hanai Awen o Garmel, ond pan oedd yn bum mlwydd oed collodd ei mam a chafodd ei magu gan ei modryb a'i hewythr yn Rhostryfan. Ar ôl priodi bu'n byw ym Montnewydd. Bu'n fam heb ei hail i Aled, kannwyll ei llygaid. Bu'n ffyddlon iawn yn Seilo a meddai ar ffydd gadarn a fu'n gymorth mawr iddi wrth wynebu cyfnod hir a blin o afiechyd, a gwnaeth hynny yn wrol a chydag urddas. Meddai Awen ar ber-sonoliaeth hyfryd a bu'n fraint cael ei hadnabod.

### Dr Glenys Trenhaile, Isgaer, Stryd yr Eglwys

Dychwelodd Glenys Trenhaile i gartre'r teulu yn Stryd yr Eglwys yn 1996 a hynny wedi iddi hi a'i phriod dreulio cyfnod hir yn y Coed Duon, Morgannwg, y ddau yn gweithio i Adran Iechyd Gwent. Bu farw ei phriod yn annisgwyl flwyddyn yn ddiweddarach. Roedd Glenys yn wraig alluog a'i sgwrs bob amser yn ddi-ddorol. Ymddiddorai mewn hanes lleol. Roedd ganddi feddwl mawr o Seilo lle bu ei theulu yn aelodau ffyddlon ar hyd y blynyddoedd. Bu'n fawr ei gofal o Aled, ei mab, a chydymdeimlwn yn ddiffuant ag ef yn ei brofedigaeth o golli mam heb ei hail.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â **Mrs Carys Jones**, 28 Stryd Dinorwig, sydd wedi colli ei thad ac â **Mrs Jane Williams**, Cartref Nyrsio Sant Tysilio, wedi iddi golli ei chwaer.

Dymunwn Dduw yn nerth i'r teuluoedd yn eu hiraeth am anwyliaid.

## Gwaeledd

Anfonwn ein cofion at **Mr T Meirion Hughes**, 34 Stryd Garnon, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri ac at **Mrs Menna Thomas**, Wigoedd, Parc Muri-au sydd yn ysbyty Gwynedd. Dymunwn adferiad buan i'r ddau ohonynt.

## Blodau'r Sul

Dyma'r rhai fydd yn gyfrifol am y blodau yn Seilo yn ystod mis Chwefror: **Mrs Margaret Roberts** (2); **Mrs Lis Lloyd Davies** (9); **Mrs Helen Jones**, Bryn Rhug (16); **Howel Roberts**, Carreg Las (23); **Mrs Sioned Clwyd Jones** (2 Mawrth)

## Y Gymdeithas Lenyddol

Cynhaliwyd cyfarfod o'r gymdeithas nos Lun, Ionawr 20<sup>fed</sup> pan gafwyd sgwrs gan Mr Richard Morris Jones a chip ar fywyd John Glyn Davies. Llywyddwyd y noson gan y Parch Dafydd Lloyd Hughes. Cafwyd darlun llawn a manwl o J Glyn Davies a'i hanes yn awdur caneuon ysgafn fel 'Llongau Caernarfon' a 'Fflat Huw Puw' a chaneuon i blant fel 'Fuoeh chi 'rioed yn morio' a 'Gwen a Mair ac Elin'.

Ganwyd ef yn 1870 yn Lerpwl yn un o bedwar o feibion, ei dad yn farsandiwr te a'i fam yn ferch i un o bregethwyr mawr Cymru, y Parch John Jones, Tal-

y-sarn. Cafwyd portread ohono drwy sgwrs a sgrin gyda darnau o gyflwyniad a wnaeth Richard Morris Jones ar gyfer S4C yn 1986. Roedd yn gasglwr alawon a cherddi traddodiadol a morwrol gan eu haddasu a'u trosi i'r Gymraeg.

Treuliodd ddwy flynedd yn Seland Newydd cyn dychwelyd a dod yn lyfrgellydd Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth cyn symud i Lyfrgell Prifysgol Lerpwl lle yn ddiweddarach y daeth yn bennaeth yr adran Geltaidd.

Byddai wrth ei fodd yn ymweld â Phen Llŷn yn rheolaidd ac mae sawl cân ganddo yn adlewyrchu hynny.

Diolchwyd i Richard Morris Jones gan lywydd y noson am y portread ardderchog a hynod ddiddorol o fywyd a gwaith yr awdur. Diolchwyd hefyd i'r merched am baratoi paned o de.

Eurwen Williams

### **Cymdeithas y Chwiorydd**

Cynhaliwyd gwasanaeth dechrau blwyddyn ar nos Lun, Ionawr 13<sup>eg</sup>. Llywydd y noson oedd y Barchedig Gwenda Richards, ac estynnodd groeso cynnes i'r pregethwr gwadd, sef y Parch Dafydd Lloyd Hughes.

Yn dilyn dau ddarlleniad, un o lyfr y proffwyd Eseia a'r llall o Efengyl Mathew, cawsom neges berthnasol ganddo ar y thema gobaith. Wedi diffinio ystyr gobaith, clywsom fod pob plentyn a enir yn arwydd arbennig o

obaith. Ar ddechrau blwyddyn cawsom ein hannog i osgoi llwybr ofn, yn hytrach i ddilyn llwybr ffydd ac edrych i'r dyfodol trwy lygaid gobaith.

Diolchwyd i'r Parch Dafydd Hughes am ei neges amserol, ac i'r cyfeilydd Mrs Helena Jones Owen. Ar ddiwedd y noson cawsom gyfle i gymdeithasu dros baned.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Chwefror 10<sup>fed</sup> pan gawn gwmmi un o'n haelodau, Mrs Eurwen Williams, a fydd yn sôn am Fwyd Blasus – cyfarfod a ddylai fod at ddant pawb sy'n mwynhau coginio a bwyd.

Marian Parry Jones

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf i law erbyn Chwefor 20fed os gwelwch yn dda

Gweinidog: Parch Gwenda Richards 676435  
Golygydd: Mrs Angharad Williams 674865